Polisi a Gweithdrefn Gwrthdrawiadau Buddiannau ("Polisi")

Cyflwyniad

1. Mae'r polisi hwn yn nodi'r egwyddorion y disgwylir i'r Cydbwyllgor Llywodraethu ('CBLl'), Gweithgor Swyddogion ('GS') a'r Awdurdod Lletya, y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel 'Personél PPC', ynghyd ag ymgynghorwyr a chyflenwyr ('Darparwyr') i'w dilyn i ddiben adnabod, rheoli a monitro gwrthdrawiadau buddiannau mewn perthynas â'r ddyletswydd maent yn ei hymgymryd i Bartneriaeth Pensiwn Cymru ('PPC'/y Bartneriaeth).

2. Mae Awdurdodau Cyfansoddol y Bartneriaeth wastad wedi gorfod adnabod, rheoli a monitro gwrthdrawiadau buddiannau. Mae proses cronfeydd cyfun Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ('CPLlL') wedi golygu bod Partneriaeth Pensiwn Cymru hefyd yn gorfod delio gyda bodolaeth gwrthdrawiadau buddiannau. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith y bydd gan Bersonél a Darparwyr y Bartneriaeth amrywiaeth o rolau a chyfrifoldebau eraill.

3. Mae gan y Bartneriaeth ddyletswydd ymddiriedol a chyfreithiol i weithredu er budd pennaf ei rhan-ddeiliaid a'i buddiolwyr, ond nid yw hyn yn atal Personél y Bartneriaeth a Darparwyr rhag cael rolau neu gyfrifoldebau sydd o ganlyniad yn gallu golygu gwrthdrawiad buddiant. Mae'n bwysig bod egwyddorion llywodraethu da yn cael eu dilyn a bod polisi a gweithdrefn gwrthdrawiad buddiannau, fel hwn, yn cael ei roi yn ei le i amlinellu sut i adnabod, rheoli a monitro gwrthdrawiadau.

4. Amcan y Bartneriaeth wrth baratoi a gweithredu'r polisi hwn yw gallu:

   4.1 dangos ei hymrwymiad i adnabod, rheoli a monitro gwrthdrawiadau buddiannau.

   4.2 glynu at gred y Bartneriaeth y bydd llywodraethu da a thryloywder yn arwain at well deilliannau i'w rhan-ddeiliaid.

   4.3 parhau gyda chreu fframwaith llywodraethu a gwneud penderfyniad y Bartneriaeth sy'n canolbwyntio ar gyflawni'r deilliannau gorau i ran-ddeiliaid y Bartneriaeth.

5. Mae'r Bartneriaeth wedi mabwysiadu diffiniad o wrthdrawiadau buddiannau sydd yn cynnwys gwrthdrawiadau posib, rhai a welir a rhai gwirioneddol. Mae'r Bartneriaeth yn deall nad yw hi efallai yn bosib adnabod, rheoli a monitro'r holl wrthdrawiadau buddiannau posib ac a welir, ond bydd yn ymdrechu i wneud hyn ble fo'n bosib.

6. Mae'r Bartneriaeth yn cydnabod bod methiant i reoli gwrthdrawiadau buddiannau yn golygu risgiau materol iddi, a gallai canlyniadau hyn gynnwys penderfyniadau sydd ddim er budd gorau rhan-ddeiliaid y Bartneriaeth, gan effeithio yn negyddol ar ei henw da a/neu gyfeirio at gyrff rheoleiddio. Mae nifer o ffactorau sydd angen eu monitro a'u rheoli er mwyn gallu gweithredu'r polisi hwn yn llwyddiannus. Maent yn cynnwys:

   6.1 Cyfathrebu y cyfrifoldebau a amlinellir yn y polisi hwn yn effeithiol.

   6.2 Dull adnabod a pherchnogaeth glir o'r rolau a amlinellir yn y polisi hwn.

   6.3 Hyfforddiant addas a dealltwriaeth o'r rolau a'r cyfrifoldebau a amlinellir yn y polisi hwn.

7. Lluniwyd y polisi hwn i roi arweiniad i Bersonél a Darparwyr y Bartneriaeth, ei nod yw sicrhau nad yw Personél a Darparwyr y Bartneriaeth yn ymddwyn yn amhriodol. Datblygwyd y polisi hwn gan y Bartneriaeth mewn ymgynghoriad â'r Awdurdodau Cyfansoddol. Mae rhestr o Bersonél a Darparwyr y Bartneriaeth ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Bartneriaeth.

8. Mae'r Polisi hwn yn adlewyrchu cred y Bartneriaeth bod llywodraethu da a mwy o dryloywder yn gwella'r penderfyniadau a wneir gan arwain at ddeilliannau uwch i ran-ddeiliaid y Bartneriaeth. Rhaid i'r

Bartneriaeth geisio bod yn ymwybodol o wrthdrawiadau buddiannau posib a chael gweithdrefnau yn eu lle i'w rheoli. Mae'r Polisi hwn yn amlinellu y gweithdrefnau mae'r Bartneriaeth wedi eu mabwysiadu i gyflawni hyn.

9. Yr Awdurdod Lletya fydd yn gyfrifol am fonitro gwrthdrawiadau buddiannau gan sicrhau bod holl Bersonél a Darparwyr y Bartneriaeth yn ymwybodol o'r polisi hwn ac yn glynu ato. Bydd yr Awdurdod Lletya yn casglu'r datganiadau o wrthdrawiadau gan gadw cofrestr o wrthdrawiadau buddiannau.

10. Mae'r Bartneriaeth yn cydnabod bod hyfforddiant ac addysg yn hanfodol i gyflawni deilliannau da a bydd yn dyrannu adnoddau i sicrhau ei bod yn ymgymryd â hyfforddiant ac addysg rheolaidd i adnabod, rheoli a monitro gwrthdrawiadau buddiannau.

11. Mae'r Polisi yma'n canolbwyntio yn unig ar wrthdrawiadau buddiannau a all godi o'r gwaith mae Personél a Darparwyr y Bartneriaeth yn ei ymgymryd ar ei rhan. Bydd Awdurdodau Cyfansoddol y Bartneriaeth yn parhau yn gyfrifol am reoli gwrthdrawiadau buddiannau y gall Personél neu Ddarparwyr y Bartneriaeth ddod ar eu traws wrth ymgymryd â gwaith ar lefel Awdurdod Cyfansoddol. Ynghyd â chwrdd gyda gofynion a disgwyliadau'r Polisi hwn, dylai Personél a Darparwyr y Bartneriaeth barhau i lynu at unrhyw bolisïau eraill i reoli gwrthdrawiadau buddiannau maent yn ddarostyngedig iddynt, gall hyn gynnwys polisïau Awdurdod Cyfansoddol neu gwmni a chodau ymddygiad perthnasol eraill.

12. Caiff Polisi a Gweithdrefn Gwrthdrawiadau Buddiannau y Bartneriaeth ei adolygu yn ffurfiol gan y GS, a'i ddiweddaru os oes angen, bob tair blynedd. Er hynny, gellir adolygu neu newid y Polisi yn amlach os oes angen i'r Bartneriaeth roi sylw i ganllawiau neu reoliadau perthnasol.

Diffiniad a Dehongliad

13. Mae'r Bartneriaeth wedi mabwysiadu diffiniad Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 o wrthdaro buddiannau, sy'n datgan bod gwrthdrawiad buddiant yn fuddiant ariannol neu fuddiant arall sy'n debygol o ragfarnu gweithrediad swyddogaethau unigolyn.

14. Mae'r Bartneriaeth yn cydnabod y gall gwrthdrawiad buddiannau fodoli pan fo gan Bersonél neu Ddarparwr y Bartneriaeth gyfrifoldeb neu ddyletswydd ymddiriedol yng ngweithrediad, y broses o wneud penderfyniadau neu reolaeth y Bartneriaeth ond hefyd â:

    14.1 Buddiant personol neu gorfforaethol ar wahân, sy'n gallu bod yn ariannol neu anariannol ei natur.

    14.2 Cysylltiad arall i'r mater a fedrai beri gwrthdaro posib gyda'u cyfrifoldeb sylfaenol i'r Bartneriaeth. Gallai'r buddiant yma godi drwy gysylltiad ac gallai darddu o aelod teuluol neu gydweithiwr gyda rhwymedigaeth neu fuddiant.

Polisi a Gweithdrefn

15. Er mwyn i'r Polisi yma weithio mae Personél a Darparwyr y Bartneriaeth wedi cytuno bod yn rhaid iddynt:

    15.1 gydnabod unrhyw wrthdrawiad buddiannau sydd ganddynt;

    15.2 fod yn agored gyda'i gilydd am unrhyw wrthdrawiad buddiannau sydd ganddynt;

    15.3 mabwysiadu datrysiadau ymarferol; a

    15.4 cynllunio ymlaen a rheoli unrhyw wrthdrawiad buddiannau sy'n codi.

16. Mae'r Bartneriaeth wedi mabwysiadu y weithdrefn isod i gael tryloywder llawn ac fel bod modd cadw cofnod manwl o unrhyw wrthdrawiadau buddiannau yn y Bartneriaeth.

    16.1 Bydd holl Bersonél y Bartneriaeth yn darparu ffurflen datgan buddiant ar eu penodiad, ac unwaith y flwyddyn wedi hynny, a bydd hon yn cael ei chadw ac ar gael yn hawdd i holl Bersonél y

Bartneriaeth, ar gais. Mae angen i Bersonél y Bartneriaeth hysbysu'r Awdurdod Lletya os oes unrhyw newidiadau i'r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn eu datganiad.

16.2 Ar ddechrau cyfarfodydd CBLl, mae'n ofynnol bod yr Aelodau yn datgan yn ffurfiol eu gwrthdrawiadau o fuddiant. Bydd Personél a Darparwyr y Bartneriaeth hefyd yn gorfod datgan unrhyw wrthdrawiad sy'n gysylltiedig gyda unrhyw eitemau ar raglen y cyfarfod.

16.3 Rhaid i Bersonél y Bartneriaeth sydd yn credu bod ganddynt hwy, neu aelod arall o gymuned y Bartneriaeth, wrthdrawiad buddiant ar bwnc arbennig hysbysu'r Swyddog Monitro, fel bod modd ceisio cyngor. Bydd y gwrthdaro buddiant a'r camau gweithredu a gymerwyd yn cael eu cofnodi yn y cofnodion.

16.4 Ar ddechrau pob cyfarfod GS, bydd Swyddogion y GS sy'n bresennol yn gorfod datgan os yw eu datganiadau wedi newid ers iddynt gyflwyno eu ffurflenni datgan buddiant diwethaf.

16.5 Rhaid i Bersonél y Bartneriaeth sydd yn credu bod ganddynt hwy, neu aelod arall o gymuned y Bartneriaeth, wrthdrawiad buddiant sydd wedi codi rhwng cyfarfodydd roi gwybod i'r Awdurdod Lletya ar y cyfle cyntaf posib. Yn dilyn hyn, dylid darparu ffurflen datganiad buddiant wedi'i diweddaru i'r Awdurdod Lletya.

16.6 Mae gofyn i Ddarparwyr y Bartneriaeth ddarparu manylion i'r Awdurdod Lletya am eu gweithdrefnau rheoli gwrthdaro neu eu cod ymarfer proffesiynol. Darperir copi o'r Polisi hwn i Ddarparwyr ar eu penodiad.

16.7 Mae'n ofynnol bod darparwyr y Bartneriaeth yn datgelu i'r Awdurdod Lletya unrhyw wrthdrawiad buddiant all godi, gan gynnwys unrhyw drydydd partïon cysylltiedig a gyflogir.

17. Wedi adnabod unrhyw wrthdaro buddiannau, bydd y Awdurdod Lletya yn cynnal proses werthuso, a adolygir gan y GS. Bydd y broses werthuso yn asesu difrifoldeb posib yr effeithiau a fedrai ddigwydd pe na fyddai'r gwrthdaro dewisol yn cael ei reoli'n addas. Yn dilyn y broses werthuso bydd y Bartneriaeth yn dosbarthu'r gwrthdaro ar sail natur a difrifoldeb posib ei effaith. Bydd y Bartneriaeth yn defnyddio graddfa difrifoldeb tair lefel, bydd gwrthdaro yn cael ei ddosbarthu un ai yn risg isel, canolig neu uchel.

18. Bydd y Bartneriaeth yn ceisio rheoli gwrthdrawiadau buddiannau mewn ffordd deg a chytbwys. Mae'r Bartneriaeth wedi gosod proses uwchgyfeirio yn ei lle i reoli yn effeithiol unrhyw wrthdaro buddiannau a nodwyd fel rhai sydd angen eu rheoli ymhellach:

18.1 Gall y Bartneriaeth ofyn am ragor o fanylion ar y gwrthdaro buddiannau perthnasol er sicrhau deall ei natur a'i effaith posib yn llawn.

18.2 Os oes angen, bydd y Bartneriaeth yn gofyn i'r Personél neu'r Darparwr perthnasol i ymatal neu yn wirfoddol i eithrio eu hunain ar y mater ble fo ganddynt fuddiant sy'n gwrthdaro.

18.3 Os yw'r Personél neu'r Darparwr perthnasol yn amharod i ymatal neu yn wirfoddol i eithrio eu hunain yna bydd y Bartneriaeth yn sicrhau bod y Personél neu'r Darparwr perthnasol yn cael eu heithrio o'r mater ble mae ganddynt fuddiant sy'n gwrthdaro.

18.4 Os yw'r holl ymdrechion blaenorol yn methu, gall y Bartneriaeth ofyn am ymddiswyddiad Personél perthnasol y Bartneriaeth neu'r Darparwr.

19. Bydd proses uwchgyfeirio pedwar cam y Bartneriaeth yn addas yn y mwyafrif o achosion. Er hynny, gall fod amgylchiadau lle bydd angen elfen o hyblygrwydd, yn yr achosion hyn a bydd y Bartneriaeth yn defnyddio ei disgresiwn i sicrhau bod y gwrthdaro perthnasol yn cael ei reoli yn effeithiol ac yn sydyn. Er enghraifft, gall fod yn amlwg o'r dechrau mai dim ond drwy ymddiswyddiad Personél neu Ddarparwr perthnasol y Bartneriaeth y gellir rheoli gwrthdrawiad buddiannau yn effeithiol.

20. Mae'r Bartneriaeth yn cydnabod bod gan y broses a'r strwythur gwneud penderfyniadau ddylanwad sylweddol ar allu gwrthdaro buddiannau i effeithio ar y Bartneriaeth. Mae'r Bartneriaeth yn rheolaidd yn adolygu ac yn derbyn hyfforddiant ar ei phrosesau gwneud penderfyniadau gyda'r bwriad o adnabod agweddau sy'n gallu darparu amgylchedd i wrthdaro buddiannau ddigwydd ac i effeithio yn negyddol ar y Bartneriaeth.

21. Yn benodol, mae'r Bartneriaeth wedi adnabod rhagfarn diarwybod, fel angori, fel ffordd ble mae buddiant sy'n gwrthdaro yn gallu effeithio yn gynnil ar broses gwneud penderfyniadau'r Bartneriaeth. Cred y Bartneriaeth bod ymwybyddiaeth a hyfforddiant ar ragfarn diarwybod o gymorth i liniaru ei gallu i feithrin gwrthdaro buddiannau o fewn i prosesau gwneud penderfyniadau y Bartneriaeth.

Canllawiau a Deddfwriaeth

22. Mae'r Bartneriaeth yn nodi nad oes unrhyw ddeddfwriaeth benodol wedi ei darparu hyd yma gan y llywodraeth i reoli gwrthdrawiadau buddiannau a allai godi wrth gyd-fuddsoddi'r CPLlL. Er hynny, wrth lunio'r Polisi yma mae'r Bartneriaeth wedi ystyried ac ymgorffori y canllaw a'r rheoliad isod.

23. Mae Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 yn canolbwyntio ar Fyrddau Pensiwn, er hynny wrth lunio'r Polisi yma mae'r Bartneriaeth wedi allosod y canllaw isod o'r Ddeddf, rhaid i'r Bartneriaeth fod;

    23.1 Yn fodlon, ar eu penodiad, nad oes gan Bersonél y Bartneriaeth wrthdrawiad buddiannau na ellir eu rheoli a'u monitro yn ddigonol.

    23.2 Yn fodlon o bryd i'w gilydd nad oes gan unrhyw Bersonél y Bartneriaeth wrthdrawiad buddiannau na ellir eu rheoli a'u monitro yn ddigonol.

    23.3 Yn gofyn bod Personél y Bartneriaeth, neu unigolyn sydd i'w benodi yn fuan, yn darparu gwybodaeth i'r Bartneriaeth fel sy'n rhesymol ei angen i'r Bartneriaeth i fod yn fodlon am bwyntiau 23.1 a 23.2.

    Dalier sylw bod rheoliad 108 o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 wedi cymhwyso gofynion Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus i'r CPLlL.

24. Bydd y Bartneriaeth yn parhau i ymgysylltu gyda'r Adran Codi'r Gwastad, Tai a Chymunedau ("DLUHC") a Bwrdd Ymgynghorol y Cynllun gan roi sylw i unrhyw ganllawiau perthnasol mewn perthynas â gwrthdrawiadau buddiannau a rheolaeth effeithiol o'r rhain. Bydd y Bartneriaeth yn diweddaru'r polisi yma pan fo angen sicrhau ei fod yn cyd-fynd gyda'r canllaw perthnasol.

25. Mae'r Bartneriaeth yn cydnabod bod yn rhaid i Aelodau Etholedig yr Awdurdod Cyfansoddol roi ystyriaeth ddyladwy i 'Ddeg Egwyddor Arweiniol' Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wrth ymgymryd â'u rôl ddynodedig. Yn unol â chanllaw Cynulliad Cenedlaethol Cymru, mae'r Bartneriaeth yn disgwyl i'w holl Bersonél fod yn ymwybodol o'r deg egwyddor ac i gydnabod pwysigrwydd ac arwyddocâd yr egwyddorion hyn wrth ymgymryd â gwaith ar ran y Bartneriaeth. Mae'r Bartneriaeth wedi ystyried yr egwyddorion hyn wrth lunio'r Polisi yma gan nodi pwysigrwydd mabwysiadu'r egwyddorion hyn gan Bersonél y Bartneriaeth, sef:

    25.1 Anhunanoldeb

    25.2 Gonestrwydd

    25.3 Dilysrwydd a Phriodoldeb

    25.4 Dyletswydd i gynnal y Gyfraith

    25.5 Stiwardiaeth

    25.6 Bod yn wrthrychol wrth wneud penderfyniadau

25.7 Cydraddoldeb a Pharch

25.8 Bod yn agored

25.9 Atebolrwydd

25.10 Arweiniad

26. Lluniodd y Rheoleiddiwr Pensiynau ddogfen Canllaw Gwrthdrawiadau Buddiannau, mae'r Bartneriaeth yn cydnabod bod y canllaw hwn wedi ei llunio gan roi sylw i'r Byrddau Pensiwn, er hynny mae'r egwyddorion cyffredinol a'r canllaw wedi cael eu hystyried yn natblygiad y Polisi yma. Mae dogfen Canllaw Gwrthdrawiadau Buddiannau y Rheoleiddiwr wedi ei chyflwyno i holl Bersonél y Bartneriaeth ac ar gael drwy gyfleuster storio dogfennau ar-lein y Bartneriaeth.

27. Mae adroddiad CIPFA ar Egwyddorion Cronni Buddsoddiadau i Awdurdodau Gweinyddu CPLlL yn nodi bod y cyflwyniad i gronni CPLlL ag effaith faterol ar y roliau a ymgymerir gan aelodau pwyllgor, cynrychiolwyr, swyddogion ac ymgynghorwyr CPLlL. Mae'r Adroddiad yn tynnu sylw at yr angen i ddiweddaru polisïau gwrthdrawiad buddiannau i adlewyrchu'r gwrthdaro newydd a fedrai godi o gronni CPLlL. Roedd y Bartneriaeth yn disgwyl i'w Phersonél fynd ati yn rhagweithiol i hysbysu eu Hawdurdod Cyfansoddol am unrhyw wrthdaro sy'n gallu codi o weithgareddau'r Bartneriaeth. Ar ben hynny, mae'r Bartneriaeth wedi ystyried y gwrthdrawiadau newydd sy'n gallu codi o gronni CPLlL wrth lunio'r polisi yma ac mae wedi ceisio gweithredu polisïau a gweithdrefnau fydd yn rheoli'r gwrthdrawiadau hyn.

Gwybodaeth Bellach

28. Os hoffech ragor o fanylion am Bolisi a Gweithdrefn Gwrthdrawiad Buddiannau PPC, cysylltwch â walespensionpartnership@carmarthenshire.gov.uk

Fersiwn 3.0
Mehefin 2022